**Cyngor Tref TREGARON Town Council** *Clerc/Clerk:* Heulwen Bulman

Delfryn
Llwynpiod
Llangeitho
Tregaron
Ceredigion
SY25 6TA

*Ffôn/Tel:* 01974 298 367
*Ffacs/Fax:* 01974 298 089
*E-bost/E-mail*: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk
*Ffôn symudol/mobile*: 07929 970 547

**CYFARFOD CYNGOR TREF TREGARON NOS LUN/*MONDAY 18.11.*2019**
**@ 7.30 yh/pm YN Y NEUADD GOFFA/*IN THE MEMORIAL HALL***

**COFNODION CYFARFOD TACHWEDD 2019**
***MINUTES OF NOVEMBER 2019 MEETING***

1. **ADRODDIAD YR HEDDLU / *REPORT FROM THE POLICE***
Yn absenoldeb yr heddlu, ni dderbyniwyd adroddiad.
*In the absence of the police, no report was received.*

2. **CROESO / *WELCOME***
Croesawodd y Cadeirydd pawb i gyfarfod misol.
*The Chairman welcomed all to the monthly meeting.*

**PRESENNOL / *PRESENT***: Cyng/*Cllr* Arwel Jones (Cadeirydd/*Chair*), Cyng/*Cllr* Catherine Hughes, Gwilym Jenkins, Ann Jones, Evan Jones, Rhian Jones, Alun Owen. June Owens & Cyng/*Cllr* Rhydian Wilson.

3. **YMDDIHEURIADAU / *APOLOGIES*:** Cyng/*Cllr* Gary Rees.

4. **MATERION PERSONOL / *PERSONAL MATTERS***
Darllenwyd a derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad oddi wrth Cyng Gary Rees, clerc i anfon llythyr o ddiolch iddo am ei wasanaeth.
*Letter of resignation received & accepted from Cllr Gary Rees, clerk to send a letter of thanks for his service.*
Diolchwyd i Cyng Rhydian Wilson am ei waith dros cyfnod gwasanaeth Sul y Cofio.
*A vote of thanks was given to Cllr Rhydian Wilson for his work during Remembrance Sunday service.*

5. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / *DECLARATION OF PERSONAL INTEREST***
Dim i'w gofnodi / *Nothing to declare.*

6. **CADARNHAU COFNODION / *CONFIRM MINUTES – 16.092019***
Cynnig / *Proposer*: Cyng/*Cllr* Alun Owen
Eilio / *Seconded*: Cyng/*Cllr* Catherine Hughes

7. **MATERION YN CODI O'R COFNODION / *MATTERS ARISING FROM MINUTES***
7.1 Diolchwyd i Cyng Evan Jones am wneud yr arolwg gweledol diwethaf yn y parc a chytunwyd i Cyng Rhian Jones wneud am y mis i ddod.
Yn dilyn arolwg gweledol Cyng Evan Jones, soniwyd bod y ddwy fainc concrit yn beryglus a bod angen symud y ddwy o'r parc mor fuan â phosibl, Cyng Evan Jones yn cynnig symud nhw o'r parc yn llwyr.
Cadeirydd i wneud ymchwil am y gost o adnewyddu'r seddu sydd ar y swings.
Cadeirydd i drosglwyddo'r manylion am y gwaith oedd angen eu gwneud yn y parc ar gyfer y Clerc i'w hanfon ymlaen i TTS am amcan bris.

CADEIRYDD / CHAIRPERSON

*Cllr Evan Jones was thanked for carrying out the last visual park inspection and Cllr Rhian Jones was asked to carry out the next inspection.*
*Following Cllr Evan Jones visual inspection, it was mentioned that the two concrete benches in the park were in very poor condition and needed to be removed immediately. Cllr Evan Jones offered to remove from the park.*
*Chairman to make inquiries to the cost of replacing the seats on the swings.*
*Chairman to forward the schedule of works needed to be carried out in the park in order for the clerk to forward to TTS for a written quotation.*

7.2 Cytunwyd i gynnal cyfarfod ar 5ed o Ragfyr 2019 am 5.00yh efo Steffan Griffiths/Simone Eade a oedd nawr yng ngofal gwaith Mr Lewis Baron i drafod ymhellach ynglŷn â Chynllun llifogydd. Enwebwyd Cyng Arwel Jones, Cyng Catherine Hughes, Cyng Gwilym Jenkins, Cyng Evan Jones a'r Clerc i fynychu'r cyfarfod yma.
*It was agreed to hold a meeting on 5th December 2019 at 5.00pm with Mr Steffan Griffiths/Simone Eade who was now in charge of Mr Lewis Baron's workload, to discuss the flood plan further. The following were nominated to attend the meeting, Cllr Arwel Jones, Cllr Catherine Hughes, Cllr Gwilym Jenkins, Cllr Evan Jones and the Clerk.*

7.3 Cyng Catherine Hughes dal yn disgwyl ymateb o'r Cyngor Sir am gyflwr y ffordd oddi amgylch CCF am y Ganolfan Hamdden.
*Cllr Catherine Hughes awaiting a response from the County Council regarding the condition of the road around the CCF towards the Leisure Centre.*

7.4 Soniwyd ni fyddai Ysgol Henry Richard yn parhau i dorri porfa'r cae chwarae ym Mrynheulog bellach gan nad ydynt yn ei ddefnyddio. Prifathro yn cadarnhau bod y Cyngor Sir Ceredigion yn methu dod o hyd i'r cytundeb gwreiddiol o ddefnyddio'r cae chwarae.
*It was mentioned that the Ysgol Henry Richard School would no longer be cutting the grass for the playing field in Brynheulog as they do not have further use for the field. Headmaster had received confirmation from the County Council that they could not find the original lease/contract for the playing field with the Primary School.*

7.5 Trafodaethau yn parhau rhwng Cyng Catherine Hughes a Mr Dorian Pugh ynglŷn â Pharêd Gŵyl Ddewi yn Nhregaron.
*Discussion are continuing between Cllr Catherine Hughes and Mr Dorian Pugh regarding the St David's day Parade in Tregaron*.

7.6 Clerc i drafftio copi o Reolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol a'i chylchredeg i'r Cynghorwyr i'w drafod ac i'w mabwysiadau yn flynyddol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
*Clerk to draft a copy of the Standing Orders and Financial Regulations and circulate to all councillors for approval and place on the agenda for the Annual General Meeting*.

7.7 E-bost wedi'u dderbyn nôl oddi wrth Kieran Elliott, Elliott Conservation yn cadarnhau y gall gario allan y gwaith sydd angen ar Henry Richard am bris o £550, cytunwyd i'r pris, clerc i siecio taw Kieran Elliott sydd i archebu'r drwydded berthnasol i ddefnyddio'r palmant, ac iddo gario allan y gwaith dechrau'r Gwanwyn.
*E-mail received from Keiran Elliott, Elliott Conservation confirming that he is able to carry out the necessary works on Henry Richard at a cost of £550, council accepted the price, clerk to confirm that it is Kieran Elliott who purchases the necessary pavement licence and to reserve Mr Elliott to carry out the works in early Spring*.

8. **CYFRIFON / *FINANCIAL MATTERS***

8.1 Gweithiwr Strydlun/*Street Scene Worker* £256.19
8.2 Clerc/*Clerk* £269.40
8.3 HMRC NIC/TAX Mis/*Month* 7 £71.80
8.4 Gareth Evans £320.00
8.5 Balans y banc/*Bank Balance* £42,574.61
8.6 Praescept (3) wedi'u dderbyn £6,666.66
8.7 RBL Poppy Appeal 2019 £25.00

Cynnig / *Proposer*: Cyng Gwilym Jenkins
Eilio / *Seconded*: Cyng Rhydian Wilson CADEIRYDD / CHAIRPERSON

9. **ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / *REPORT FROM THE STREET SCENE WORKER***

Angen i'r gweithiwr strydlun glanhau'r llwybr o gefn yr Eglwys lawr am Doldre.
*Street Scene Worker to clean from behind the Church down towards Doldre*.
Cais am wybodaeth ynglŷn â swydd y gweithiwr strydlun wedi'u dderbyn trwy law'r clerc oddi wrth Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan a Mr Steve Williams, Cynghorwyr yn fodlon i'r Clerc drosglwyddo'r manylion swydd ymlaen iddynt.
*Request for information regarding the Street Scene worker job description received from Lampeter Town Council and Mr Steve Williams, Councillors happy for the Clerk to forward the relevant information*.

10. **CEISIADAU CYNLLUNIO / *PLANNING APPLICATIONS***

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report*

11. **CANIATAD CYNLLUNIO / *PLANNING APPROVED***

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report.*

12. **CYNGOR SIR CEREDIGION *COUNTY COUNCIL***

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report.*

13. **UN LLAIS CYMRU / *ONE VOICE WALES***

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report.*

14. **CYNLLUNIAU LLE / *PLACE PLANS***

Pwyllgor wedi cwrdd i ddrafftio'r adroddiad, Cadeirydd i'w gylchredeg i'r Cynghorwyr am ei barn cyn ei hanfon i mewn yn derfynol.
Cadeirydd i lenwi'r taflenni amser a'u rhoi i mewn.
*Committee had met and drafted a report, Chairman to circulate to the Councillors for their approval before final draft to be submitted.*
*Chairman to complete the timesheets before handing them in.*

15. **PROSIECT CYLCH CARON PROJECT**

Cwmni WRW Contruction Ltd wedi'u hapwyntio fel yr adeiladwyr ar gyfer y prosiect.
Cyfarfod rhan ddeilliaid wedi'u drefnu ar gyfer 16 Rhagfyr 2019.
*WRW Contruction Ltd had been awarded the project contract.*
*Stakeholders meeting had been arranged for 16 December 2019.*

16. **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU 2020**

16.1 Trafodwyd y cais oedd wedi'u dderbyn trwy law Cyng Catherine Hughes o'r pwyllgor apêl, i weld a yw'r Cyngor Tref yn fodlon fod yng ngofal yr arian ychwanegol a fu wedi'u gasglu trwy ddigwyddiadau diweddar fel 'Strictly Caron Dancing' i harddu'r dref. Clerc wedi cysylltu am gyngor o Un Llais Cymru ac mae'n hollol iawn i'r Cyngor Tref wneud hyn ond i nodi byddai angen cadw fwy o gyfrifon am yr arian ychwanegol. Trafodwyd y mater ymhellach a chynigwyd gan Cyng Evan Jones ac eiliwyd gan Cyng Alun Owen i'r Clerc agor cyfrif banc arwahân i'r cyfrif cyffredinol i gadw'r arian ychwanegol ar gyfer harddu'r dref. Angen trafod yn y cyfarfod nesaf beth yn union bydd eisiau gwneud oddi amgylch y dref, ac i Cyng Catherine Hughes i adrodd nôl i'r Pwyllgor Apêl y syniadau a godwyd allan o'r cyfarfod.
Cynhelir ocsiwn drwy law'r Pwyllgor Apêl ar 22 Chwefror 2020 yng Ngwesty'r Talbot.
Trafodwyd cyflwr gardd Gelli Gron yn y Pentre a chytunwyd i Cyng Rhydian Wilson gael gair efo perchennog y ddaear am gyflwr y stepiau sydd wedi torri ac yn beryglus.

CADEIRYDD / CHAIRPERSON

*The application received from the Appeal Committee, through Cllr Catherine Hughes, was discussed, if the council were willing to accept responsibility for the excess monies raised through various events like 'Strictly Caron Dancing' to decorate the town. Clerk had been in contact with the office of One Voice Wales and they could see no problem taking responsibility for the excess monies except that there would be additional work and accounting to accommodate for. All options were discussed and it was proposed by Cllr Evan Jones and seconded by Cllr Alun Owen to open a separate bank account to keep the excess monies for the decoration of the town. It would be discussed at the next meeting what the Councillors would like to see and put forward to the Appeal Committee their suggestions on how to decorate the town.*

*An auction would be held through the appeal committee on 22nd February 2020 in the Talbot Hotel.*

*The condition of the Gelli Gron garden, Pentre was discussed and it was agreed that Cllr Rhydian Wilson would talk to the owner of the garden and explain to him the poor condition of the steps leading up to the garden.*

17. **PROSIECT PWLL NOFIO (TRIP) SWIMMING POOL PROJECT**

Trafodaethau yn parhau ar y prosiest.

*Discussion were continuing on the project.*

18. **GOHEBIAETH / *CORRESPONDENCE***

Dim i'w gofnodi.

*Nothing to report.*

19. **UNRHYW FATER ARALL / *ANY OTHER BUSINESS***

Cytunwyd i Cyng Gwilym Jenkins archebu coeden 18 troedfedd, coeden 14 troedfedd a 2 goeden 4 troedfedd ar gyfer y dre oddi wrth L & G Forestry Ltd.

*It was agreed that Cllr Gwilym Jenkins was to order 1 x 18-foot tree, 1 x 14-foot tree & 2 x 4-foot trees for the Town through L & G Forestry Ltd.*

Gofynnir i'r cynghorwyr siecio biniau grit/halen oddi amgylch ei hardaloedd erbyn y cyfarfod nesaf.

*Councillors were asked to check the grit/salt bins within their area by the next meeting.*

Gofynnir i'r clerc gysylltu â pherchnogion tai Rose Terrace, Courier Street i dorri'r berth sy'n mynd lan ar hyd y palmant wrth gefn y tai am Ysgol Henry Richard.

*Clerk was asked to contact the owners of Rose Terrace, Courier Street to cut back their hedgerow that had overgrown on the rear end of their property out onto the pavement which leads up to Ysgol Henry Richard School.*

Soniwyd am y car fiesta coch sy'n parcio ar y palmant oddi amgylch Henry Richard a gofynnir i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir i ddychwelyd y postyn/bolard nol ar y palmant.

*It was mentioned that a red fiesta car parked on numerous occasions on the pavement around Henry Richard and the Clerk was asked to contact the County Council to replace the post/bollard on the pavement around Henry Richard.*

Dwr yn cronni ar y ffordd Abergwesyn

*Road surface water was terrible on Abergwesyn road.*

Soniwyd am gyflwr gwael tŷ Trefelin, Cyng Catherine Hughes i godi'r mater efo Cyngor Sir Ceredigion.

*The poor condition of Trefelin house was discussed and Cllr Catherine Hughes was asked to raise the matter with the County Council.*

TERFYNWYD Y PWYLLGOR / *MEETING WAS CLOSED*

CADEIRYDD / CHAIRPERSON